YSGOL PENNAL

# LLEISIAU PENNAL

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/

## GORYMDAITH DYDD GWYL DEWI










Ar Ddydd Gwener 26ain o Chwefror aeth blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i Ysgol Penybryn i orymdeithio i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Creodd pawb baneri i'r orymdaith a'u dod efo nhw ar y bws i Dywyn. Pan oeddem ni yn cyrraedd aethom mewn i'r neuadd ac wedyn mynd lawr i'r traeth. Ar y traeth rydym wedi canu 'Hen wlad fy nhadau' a 'Daw hyfryd fis' efo plant Ysgol Penybryn ac Ysgol Craig y Deryn. Ar ôl hynna rydym ni wedi cerdded nol i'r ysgol a chael disgo yn Ysgol Penybryn
Ysgrifennwyd gan Leafin Blwyddyn 6









**MAWRTH 2026**

# YSGOL PENNAL



## CINIO TSEINIAIDD

Cawsom ginio Tseiniaidd blasus iawn wedi'i baratoi'n ofalus gan Anti Kim. Diolch yn fawr i Arlwyo Gwynedd am gynllunio bwydlenni arbennig ar gyfer diwrnodau fel hyn, gan roi cyfle i'n disgyblion flasu ac mwynhau amrywiaeth eang o fwydydd o wahanol ddiwylliannau. Roedd y pryd yn llwyddiant mawr!



## ATHLETAU SPORTSHALL

Eleni mi wnaethon ni gystadlu yng Nghystadleuaeth Athletau dan dô 'SportsHall' yn Nolgellau. Cawsom ddiwrnod prysur gydag Ysgol Pennal ac Ysgol Dyffryn Dulas yn cystadlu yn erbyn Ysgol Penybryn, Ysgol Bro Idris a Ysgol Godre'r Berwyn. Roedd yna ras cyfnewid, naid hir, taflu pêl, taflu gwaywffon a neidio cyflym. Nes i fwynhau taflu pêl â'r ras gyfnewid. Enillodd Ysgol Godre'r Berwyn.
Ysgrifennwyd gan Iestyn Blwyddyn 5

## DIOGELWCH Y RHEILFFORDD

Ar yr 26ain o Chwefror daeth Kelly i Ysgol Pennal. Roedd Kelly wedi dysgu ni sut i fod yn ddiogel ar y rheilffordd. Yn gyntaf roedd Kelly wedi siarad am bwy sydd yn gweithio ar y rheilffordd fel (Network Rail). Yna roedd Kelly wedi dangos i ni fidio bach o bobl yn trespasio a phobl sydd wedi cwympo ar y rheilffordd. Fy hoff ran oedd cwis kahoot ar y diwedd er mwyn gweld faint roeddwn ni wedi deall. Enillais y cwis. Diolch Kelly.
Ysgrifennwyd gan Jack Blwyddyn 6



# GWEITHDAI CELF GYDA MARI GWENT




Llwyddwyd i gael grant o £1500 gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gynnal gweithdai Celf creadigol gyda disgyblion Blwyddyn 3–6.
Yn ystod yr hanner tymor daeth Mari Gwent, yr artist i wneud celf gyda ni am hanes Tryweryn. Yn y sesiwn rydym wedi gwneud celf gyda sialc. Fy hoff ran oedd gwneud celf gyda phaent a sialc a gwneud syniadau gyda phapur brown. Yn yr ail sesiwn rydym wedi neud celf gyda chardfwrdd a phapur tryloyw ac wedyn gludo cardfwrdd ar y papur. Mae gwaith pawb yn wahanol ond dwi wedi gwneud rhaeadr. Rydw i yn edrych ymlaen at Mari Gwent ddod 'nôl i orffen y gweithdy ar ôl Pasg.
Ysgrifennwyd gan Angharad.



# SIED A BEICS NEWYDD

Diolch yn fawr iawn i gyfeillion yr Ysgol am ein helpu i godi arian i brynu beics a sied i gadw'r beics. Diolch yn fawr iawn i Thommy Thorndyke am wneud y gwaith. Mae'r sied yn golygu ein bod yn gallu nôl a chadw'r beics yn annibynnol. Rydym ni yn defnyddio'r sied i gysgodi i wneud tasgau pan mae hi'n bwrw glaw hefyd. Cyn i ni brynu'r beics, cafodd y Cyngor Dosbarth sgwrs efo Mrs Thomas Evans cyn casglu data ein hoff fathau feics. Ein hoff fathau ydi beics sefyll i fyny, beics efo tacsi tu ôl a sgwteri. Mae'r plant mawr yn hoff iawn o'r sied hefyd ac yn mwynhau eistedd yno i gael tawelwch yn ystod amser chwarae! Mae nhw wedi gofyn am un iddyn nhw eu hunain rŵan. Fel ac a ddwedwyd gan Efa, Abi, Mabli, River a Willow.



# YSGOL PENNAL

# DATHLU DYDD GWYL DEWI





Er mwyn dathlu Dydd Gwyl Dewi Sant, gwneud y pethau bychain oedd yn bwysig i ni. Cawsom ni hwyl yn gweithio'n gorfforol galed efo Ioan i godi cennin oedd wedi tyfu yng ngardd Ysgol Pennal. Ar ôl codi, torri gwreiddiau, golchi a phacio'r cennin gwnaethom arwydd i ddweud wrth bobl oedd yn pasio am helpu eu hunain i'r cennin.
Cyn mynd adref, roedd dosbarth y plant bach wedi mwynhau gwneud celf bwyd. Dyma un o'n hoff bethau cyn amser brwsio dannedd a mynd adref. Roedd raid i ni ddefnyddio ein dychymyg i greu Cennin Pedr efo'r bwydydd oedd ar gael ar y bwrdd. Roedd tri gwahanol fath o drionglau i'w gweld. Hafal ochrog, isosgeles ac ongl sgwâr. Rydym ni wedi dysgu am y trionglau yma wrth chwarae efo citiau 'magsnaps' a 'tap tap' yn yr ardal adeiladu. Roedd deinosor dychymyg wrth ei fodd efo ni ond roedd lot o lanast hefyd! Lot o fara ar lawr y gegin! Lot o lanast ond lot o hwyl! Roedd yn gyfle grêt i ni gael dysgu gwisgo a gwneud i'n ffedogau newydd ffitio ac ymarfer eu clymu yn y tu ôl. Un o'r pethau bychain eraill wnaethom ni oedd helpu ein gilydd i wisgo a chau ein ffedogau. Buom yn casglu data yn ystod y diwrnod hefyd. Data hoffi cacen gri, ddim yn hoffi, eisiau menyn a ddim eisiau menyn!
Fel ac a ddwedwyd
gan Emilia ac Ayda.












# DIWRNOD Y LLYFR




Roedd pob math o gymeriadau diddorol a bywiog iawn fel tywysoges, ffermwr, Alun Wyn Jones, gwrach, tylwyth teg, pel-droediwr, balerina, cwningen a vampire yn y dosbarth! Diwrnod gwyllt a swnllyd gyda'r teigr a ddaeth i de yn treulio'r diwrnod yn y dosbarth hefyd! Creu stori gyda'n gilydd oedden ni wedi dewis ei wneud. Teitl y stori oedd 'Yn Y Bocs' achos fod llawer o focsys mawr gwag wedi cyrraedd yr ysgol. Roedd actio'r stori yn gyntaf yn lot fawr o hwyl. Roedd pawb yn sgrechian! Aeth pawb o'r dosbarth bach i mewn i'r bocs gyda'i gilydd! Rhwygodd y bocs a disgynnodd pawb allan! Roedd angen trafod y cymeriad, lleoliad, problem a'r datrysiad hapus ar y diwedd. Ni oedd y cymeriadau, y bocs oedd y lleoliad, y broblem oedd fod y bocs wedi torri a'r datrysiad hapus ar y diwedd oedd gweithio gyda'n gilydd i drwsio'r bocs efo tâp!

Fel ac a ddwedwyd gan Efa, Abi, Patrick, River, Willow, Oskar a Mabli.



Ar Ddiwrnod y Llyfr roeddwn wedi cael gwisgo fyny fel ein hoff gymeriad mewn llyfr. Roeddwn i wedi gwisgo fyny fel Arthur Morgan a wedi cael cwis kahoot. Wnaethon ni greu llyfr ein hunain. Dwi wedi mwynhau.

Gan Jack Norman blwyddyn 3



# DIOGELWCH Y WE

Cawsom gyfle i greu band y gegin ac i greu a chwarae seiloffon ddŵr yn ein ardal berfformio. Rydym ni wedi dysgu fod llond jar o ddŵr yn creu nodyn traw isel, a dim llawer o ddŵr yn creu nodyn traw uchel. Cyfansoddi tiwn yr ydym ni'n ei gwybod yn barod oedd ein her. Gwnaethon ni gân i helpu plant Pennal gofio sut i fod yn hapus a diogel ar y we, wedyn ei chyflwyno gan ddefnyddio app imovie.

Fel ac a ddwedwyd gan Abi, Efa, Mabli, River a Willow.

# EISTEDDFOD CYLCH YR URDD



Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Nhywyn. Bu nifer o ddisgyblion yn llwyddiannus iawn mewn amrywiaeth o gystadlaethau. Diolch yn fawr i'r staff am hyfforddi'r disgyblion ac i'r rhieni am eich cefnogaeth.

**Unawd Blwyddyn 2 ac iau**
1af Silyn Breese

**Unawd Blwyddyn 3 a 4**
3ydd Arrow Onnen

**Parti Unsain**
3ydd Parti Pennal

**Cor**
2il Cor Ffederasiwn Corris a Pennal

**Llefaru Unigol Blwyddyn 2 ac iau**
1af Silyn Breese

**Llefaru Blwyddyn 3 a 4**
1af Curig Breese
2il Amy Turner
3ydd Angharad Evans


**Llefaru Blwyddyn 5 a 6**
3ydd Melys Morus-Baird

**Perfformio Golygfa Bl6 ac iau**
1af Grwp Sychan Pennal
2il Grwp Afon Pennal

**Unawd Pres Bl6 ac iau**
1af Iestyn Evans

**Unawd Piano Bl6 ac iau**
2il Jack Windsor-Lewis





Ar y 4ydd o Fawrth ges i 3ydd am ganu unigol Blwyddyn 3 a 4 yn canu 'Aio Aio'. Cafodd ein hymgom 2ail. Yn fy ngrŵp roedd Cali, Leafin, Amy a fi. Enw'r grŵp oedd Grŵp Afon. Fy hoff beth oedd ymgom oherwydd bod o'n hwyl. Ysgrifennwyd gan Arrow Blwyddyn 3.

**MAWRTH 2026**

# YSGOL PENNAL

## E - STEDDFOD

Darn ysgrifenedig yn yr Iaith Gymraeg (Meithrin a Derbyn)
2il Efa Thorndyke

Darn ysgrifenedig yn yr Iaith Gymraeg (Blwyddyn 1 a 2)
1af Silyn Breese

Darn ysgrifenedig yn yr Iaith Gymraeg (Blwyddyn 3 a 4)
2il Angharad Evans

Darn ysgrifenedig yn yr Iaith Gymraeg (Blwyddyn 5 a 6)
3ydd Leafin Onnen

Gwaith grŵp yn ymwneud â Chymreictod (Meithrin a Derbyn)
2il Grŵp Patrick, Efa, River, Willow, Mabli, Oskar a Abigail Pennal

Gwaith grŵp yn ymwneud â Chymreictod (Blwyddyn 1 a 2)
1af Silyn, Llewyn, Ayda ac Emilia Pennal

Gwaith grŵp yn ymwneud â Chymreictod (Blwyddyn 3 a 4)
21af Curig ac Angharad

Gwaith grŵp yn ymwneud â Chymreictod (Blwyddyn 5 a 6)
2il Jack, Leafin, Riley a Jack Pennal

Llefaru Unigol (Blwyddyn 1 a 2)
1af Silyn Breese

Llefaru Unigol (Blwyddyn 3 a 4)
1af Amy Turner

Llefaru Unigol (Blwyddyn 5 a 6)
1af Melys Morus-Baird

Canu Unigol (Meithrin a Derbyn)
2il Oskar Larkin

Canu Unigol (Blwyddyn 1 a 2)
1af Llewyn Jones

Canu Unigol (Blwyddyn 3 a 4)
1af Curig Breese

Canu Unigol (Blwyddyn 5 a 6)
3ydd Cali Higgs

Côr Meithrin – Blwyddyn 2
1af Ysgol Pennal

Côr Blwyddyn 3 – 6
1af Ysgol Pennal

1af Ysgol Llanilar
2il Ysgol Pennal
3ydd Ysgol Dyffryn Dulas








Ar y 10fed o Fawrth, gwyliom ni'r E-Steddfod yn dosbarth y plant mawr. Yr E-Steddfod yw Eisteddfod ond ar-lein. Mae yna 3 ysgol fach yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae'r beirniad yn penderfynu'r sgoriau hefyd, ac ar y diwedd, mae'r beirniad yn penderfynu pa ysgol sydd wedi ennill. Mae yna gystadleuthau i ennill y gadair a'r goron hefyd. Yr ysgolion sydd wedi cystadlu eleni yw, Ysgol Pennal, Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Llanilar. Daethom ni yn 2ail ac roeddwn yn hapus iawn!
Ysgrifennwyd gan Harry Larkin, Blwyddyn 4.

## PC SION



Diolch i PC Sion am ddod i gynnal sesiwn yn y ddau ddosbarth yn ddiweddar.
Mae PC Sion yn rhannu negeseuon pwysig gyda ni bob tro. Tro yma, bu PC Sion yn trafod pwysigrwydd ffrind da a bod yn garedig gyda plant y Dosbarth Sylfaen.
Gyda'r plant hyn, bu PC Sion yn trafod pwysigrwydd defnyddio'r we yn ddiogel, a chyfryngau cymdeithasol.
Mae'n bwysig bod plant Ysgol Pennal yn gwybod sut i gadw'n ddiogel.



## THERMOMIX






Mae'r peiriant Thermomix wedi cyrraedd Ysgol Pennal. Rydym yn edrych ymlaen i drio ryseitiau iachus a bod yn greadigol yn ein sesiynau coginio.

## CELF BWYD



Bob prynhawn dydd Gwener, rydym ni yn cael gwneud celf bwyd, os ydym ni wedi gallu casglu digon o begiau parch am fod yn garedig ac yn gwrtais tuag at eiddo, eraill ac atom ni ein hunain. Gan ein bod ni wedi bod yn ymarfer ffurfio teulu 'r' cafodd Silyn y syniad o greu roced efo bara. Roedd raid i ni dorri'r bara yn ei hanner efo cyllell i greu dau betryal yn gyntaf, wedyn torri un petryal i wneud dau sgwâr er mwyn gallu torri trionglau onglau sgwâr. Dim ond Blwyddyn 2 sydd yn hoffi crystiau, ond roedd y crystiau yn handi iawn i greu fflamau!
Pysgodyn fyddwn ni yn ei wneud nesaf, ac rydw i eisiau gwneud cwch efo siâp trapesiwm a hwyl allan o driongl ongl sgwâr wedyn.
Fel ac a ddwedwyd gan Patrick ac Oskar.



# CYNGERDD PASG





Cynhaliwyd Cyngerdd Pasg Nos Iau 19eg o Fawrth yng Nghanolfan Pennal wedi ei drefnu gan Ffrindiau Ysgol Pennal.
Bu disgyblion yr ysgol yn perfformio yn ystod y Cyngerdd. Bu disgyblion fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn perfformio eu eitemau - llefaru, canu, ymgom, piano a trwmped.
Cawsom berfformiadau grwp gan y ddau ddosbarth hefyd.
Diolch i rhieni a'r gymuned am ddod i gefnogi'r digwyddiad gan godi £498 tuag at brynu offer i'r dosbarth awyr agored yn Ysgol Pennal.

# PROSIECT ROCEDI



Tymor yma roedd pawb yn y dosbarth yn gwneud prosiect rocedi. Rhoddodd Mrs Jones 4 neu 5 ohonom mewn grwpiau i wneud 6 roced. Roeddwn yn edrych i weld pa roced fydd yn trafeilio pellaf gyda dyluniadau gwahanol. Ar ôl creu'r rocedi roedd un person o grŵp ni yn chwythu'r rocedi gyda pheipen a mesur y pellter. Ond gyda roced rhif 3 roedd Melys wedi chwythu'r roced mewn i wyneb Iestyn- roedd yn ddoniol iawn a phawb yn chwerthin! Ar ôl mesur, gwnaeth pawb graff gyda'r canlyniadau. Ein hoff ran oedd creu'r graff. Gobeithio cawn wneud prosiect tebyg eto yn fuan.
Melys ac Iestyn.



Aeth disgyblion Blwyddyn 6 â'r canlyniadau y prosiect efo nhw i'r Diwrnod Trosglwyddo yn Ysgol Uwchradd Tywyn a gwneud gwaith pellach yn ystod y diwrnod gyda disgyblion Blwyddyn 6 y dalgylch



# EISTEDDFOD RHANBARTH YR URDD



Roedd yr Eisteddfod Sir yn Ysgol Uwchradd Bro Idris yn Nolgellau. Y rhagbrofion oedd yn gyntaf a chafodd fy mrawd Silyn lwyfan yn canu 'Gwyliau yn y Caribî' a chafodd trydydd. Cafodd ymgom grŵp Sychan lwyfan ac ail agos, ond ddim yn cyrraedd y Genedlaethol yn anffodus. Ges i lwyfan yn llefaru 'Cymryd rhan sy'n bwysig', a ges i gyntaf sy'n golygu- i'r genedlaethol, HWRE‼
Hefyd yn yr Eisteddfod roedd Iestyn wedi mynd ar y llwyfan i chwarae ei drymped a chafodd gyntaf! Da iawn Iestyn.
Cafodd Jack ail ar y piano, sy'n wych. Aeth côr Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas a Pennal i'r Sir, ond ddim trwodd i'r genedlaethol. Ond roedd pawb wedi mwynhau! Roedd hin ddiwrnod hir iawn, ond mi wnes i fwynhau gwylio fy ffrindiau!
Ysgrifennwyd gan Curig John Breese



1af Anya Crockford- Unawd gitar Blwyddyn 6 ac iau
1af Curig Breese - Llefaru unigol Blwyddyn 3 a 4
1af Elsie Eyles - Llefaru dysgwyr Blwyddyn 3 a 4
1af Iestyn Evans - Unawd Pres
2il Grwp Sychan (Melys, Angharad, Curig a Silyn)
 - Perfformiad o Olygfa Blwyddyn 6 ac iau
2il Jack Windsor-Lewis - Unawd piano
3ydd Silyn Breese - Unawd canu Blwyddyn 2 ac iau
3ydd Evie Eyles - Llefaru dysgwyr Blwyddyn 2 ac iau











# SIOE NATUR



Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn gwylio drama gerddorol gan Gwmni Theatr Arad Goch o'r enw "Natur". Roedd hyn er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion am bwysigrwydd ansawdd aer a ffyrdd o leihau llygredd.
Roedd y ddrama yn archwilio ein cysylltiad gyda'r byd naturiol o'n cwmpas. Trefnwyd y prynhawn gan Siarter Iaith Gwynedd fel digwyddiadau pontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 y dalgylch.

# DIWRNOD O HWYL DRWY'R GYMRAEG



Diolch i Siarter Iaith Gwynedd ac Ysgol Uwchradd Tywyn am drefnu Diwrnod Hwyl yr Iaith Gymraeg ar gyfer Blwyddyn 6 ysgolion y dalgylch diwedd mis Mawrth,



Yn ystod y dydd, bu'r disgyblion yn cylchdroi o amgylch 4 gweithgaredd

- Sesiwn iwcalili gyda Huwcalili
- Sesiwn Iogo a Ffitrwydd yn y gampfa
- Sesiwn ganu yn yr Ystafell Gerdd
- Sesiwn chwaraeon gyda'r Urdd yn y Ganolfan Hamdden.







MAWRTH 2026

YSGOL PENNAL






# DIWRNOD IECHYD MEDDWL

Roedden ni eisiau gwnïo fel rhan o ddiwrnod iechyd meddwl y byd. Gwnïo beth oedden ni eisiau! Roedden ni yn dda iawn am wnïo pwythau efo nodwyddau tew plastig lliwgar.
Weithiau roedd yr edafedd yn bachu ar gornel y cardfwrdd! Yr unig beth oedden ni angen help efo oedd rhoi'r edafedd yn y nodwydd. Roedden ni yn gwneud popeth arall yn annibynnol. Ci wnaeth Ayda, cath wnaeth Emilia, tractor oedd Patrick eisiau ei wneud, car oedd dewis Oskar, calonnau wnïodd Abi, River, Willow, Mabli ac Efa a 'monster truck' a lori wnaethom ni ein dau.
Fel ac a ddwedwyd gan Llewyn a Silyn.

# RHEOL PANTS

Rydym ni wedi dysgu neges Pantosorws a rheol PANTS.
Preifats yn breifat.
A chofia mai dy gorff di ydi o.
Na ydi na!
Teimlo'n drist?
Siarad efo rhywun!
Mae plant Blwyddyn 2 wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer actio a pherfformio o flaen y camera er mwyn gallu recordio'r neges bwysig iawn i greu hysbyseb ar app imovie i rannu efo pawb yn Ysgol Pennal. Mae pawb yn y dosbarth wedi bod yn ymarfer ffurfio rhif 'Childline' efo toes hefyd, ac wedi gallu ei ddysgu yn dda. 0800 1111.
Fel ac a ddweudwyd gan Ayda, Emilia, Llewyn, Silyn.



# IOGA AFON A CYLCH DWR




Yn yr ardal ioga, sydd weithiau o dan do y sied feics, rydym ni wedi bod yn ymarfer creu siapiau fel afon, pysgodyn, pont, carreg, ton, boncyff a brigyn. Defnyddio'n dychymyg i greu siapiau ioga'r cylch dŵr oedd y lefel her coch.
Fel ac a ddwedwyd gan Ayda, Emilia, Llewyn a Silyn.

# THEMA DWR

**Hapus a diogel ar lan yr afon Sychan:**
Dŵr oedd ein thema ni y tymor yma, a 'da ni wedi bod yn dysgu sut i fod yn hapus a diogel wrth lan yr afon Sychan. Rydym ni wedi 'sgwennu côd afon Sychan gyda'n gilydd gan ein bod yn hoffi chwarae yn ar ôl ysgol.

1.Stopiwch!
2. Sefwch efo oedolyn!
3. Sefwch os ydych chi'n disgyn i mewn, os na'n gallu, arnofiwch.
4. Siaradwch! Sgrechiwch i gael eich clywed!
5. Ffoniwch 999 i helpu ffrindiau.

Rydym ni wedi gwneud gwaith arnofio a suddo hefyd. Rydym ni wedi darganfod fod oren efo croen yn arnofio ac oren heb ei chroen yn suddo. Y croen ydi fflôt neu siaced ddiogelwch oren fel ein fflôt ni yn y pwll nofio a'n siacedi achub ar y llyn neu ar lan y môr. Mae'r croen yn llawn pocedi bach o aer sy'n helpu efo arnofio.
Fel ac a ddwedwyd gan Ayda, Emilia, Llewyn a Silyn.





# CLOCH YR YSGOL

Daeth newyddion trist un pnawn gan yr adeiladwyr o Gyngor Gwynedd pan roedd rhaid tynnu cloch Ysgol Pennal i lawr a'r corn simdde. Roedd hyn oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch. Nid yw'r ysgol yn edrych r'un peth ond rydym yn aros i'r gloch gael ei pholsho yn lan er mwyn ei arddangos yn neuadd yr ysgol.

# GWASANAETH PASG



Ar ddiwrnod olaf cyn Gwyliau'r Pasg bob blwyddyn mae Mr Rambsbottam yn cynnal Gwasanaeth Pasg yn Eglwys Pennal. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r Stori Pasg yn ystod y Gwasanaeth a chwifio dail palmwydd i'r gan 'Can Hosana'. Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 ddarllen darlleniadau am y Pasg.
Diolch i rhieni a'r gymuned am ymuno efo ni eto eleni i'r Gwasanaeth Pasg.



Pasg Hapus i bawb a diolch am eich cefnogaeth yn ystod y tymor.